**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-519
Ein cyf/Our ref DC/CS/01199/14
Cyf Newydd/ New Reference DC/LG/05032/14

2nd Hydref 2014

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr i fy rhagflaenydd dyddiedig 1 Medi ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb gan Gymdeithas Trigolion Parc Caerwnon. Rwy'n ymateb gan fod y mater bellach yn syrthio dan fy mhortffolio i.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai fy rhagflaenydd yn barod i gyfarfod y deisebwyr er mwyn cynnal trafodaeth fanwl ynghylch lleihau neu ddileu'r comisiwn sy'n cael ei dalu i berchnogion parciau pan gaiff cartref symudol ei werthu.

Yn anffodus yn sgil ymrwymiadau sydd eisoes yn y dyddiadur ar gyfer fy swydd newydd, nid oes modd i mi eu cyfarfod ar hyn o bryd. Cynhaliwyd trafodaeth fer ynghylch y raddfa gomisiwn 10% yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2014. Dros yr haf, bu fy swyddogion yn adolygu'r data a'r dystiolaeth yn adroddiad 'Economics of the Park Homes Industry' a gynhyrchwyd yn 2002 a 'Consultation on the Park Home Commission Rate' a ymgymerwyd yn 2006.

Cyn hir byddaf yn darparu ymateb i'r Cynulliad, ar ôl i'r adolygiad hwn ddod i ben. Ynddo bydd amserlen ar gyfer cynnal gwaith ymchwil penodol i Gymru am y raddfa gomisiwn ac asesiad o'r effaith ar y diwydiant ar gyfer trigolion a pherchnogion safleoedd.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty